# SL(5)598 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) (2020)

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”).

Mae’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy’n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy’n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 diwrnod. Mae’r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid oes rhaid i bersonau ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel a ganlyn:

- Mae rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Aruba, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Malta Monaco ac Ynysoedd Turks a Caicos o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.
- Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â’r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae’r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 4 o’r Rheoliadau hyn ar weithredu’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.
- Mae rheoliad 4 yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau eraill at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

*Torri’r rheol 21 diwrnod*

1. Mae’r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn ar 14 Awst 2020, a daethant i rym y diwrnod canlynol, sef 15 Awst 2020. Rydym yn nodi'r esboniad a ddarparwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 14 Ebrill 2020:

> *"Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r lleoliad hwn/y lleoliadau hynny. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon ychwanegol yn Atodlen 4.*
>
> *Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

*Dim ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol*

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronafeirws a'r angen am yr ymateb brys i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

*Hawliau Dynol*

3. Nid yw'r diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid eu cyfiawnhau at y diben o atal clefydau heintus rhag lledaenu a/neu bod yr ymyrraeth wedi'i chaniatáu ar y sail ei bod yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.